

245) Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council: Cyfarfod Misol / Monthly Meeting, Nos Lun Mawrth 18ed 2024 --- Monday 18th March 2024 — 7.30pm at Tabernacle Chapel Vestry, Pencader.

Cynghorwyr yn bresennol / Councillors present:

M. Griffiths, G. Jones, R. Thomas, A. James, D. Davies, V. Davies, S. Mason, D. Griffiths, J. Jones, Cynghorydd Sir / County Councillor L. Evans.

Ymddiheuriadau: H. Lewis, A. Davies. Clerc: Anita Evans Ymwelwyr / Visitors: Neb / None

1) Cadeiriwyd gan M. Griffiths. Croesawyd pawb, a nodwyd ymddiheuriadau.

Meeting chaired by M. Griffiths who welcomed all and apologies were noted.

2) Datgan diddordeb gan Gynghorwyr / Declarations of interest — dim / none.

3) Heddlu: Nid oedd swyddog yn bresennol / No police present.

4) Cofnodion Cyfarfod Mis Chwefror: Minutes (February Meeting) — cafwyd yn gywir / found to be correct: proposed by D. Davies, seconded by D. Griffiths.

5) Materion y Clerc / Clerk matters:

a) Cyngor Sir: Priffyrdd - dim diweddariad; toiledau Alltwalis - Clerc wedi hysbysu fod dŵr ar y llawr o hyd — neges i ddweud fod y swyddog sy'n delio ar ei wyliau /Highways — no update; Alltwalis Conveniences - Clerc reported that there is still water pooling on the floor. Message received that the officer in charge is on holiday.

b) Cornel Chwarae — swydd gofalwr — trafod yn y cyfarfod nesaf yn Mis Ebrill / Play Corner — post of caretaker – to be discussed at next meeting in April.

c) Defibrillators: neges oddi wrth A. Munday i ddweud ei fod wedi cysylltu â Skanda Vale, a bod eu diffibrilydd ar gael at ddefnydd y gymuned / A. Munday has contacted the Skanda Vale property in Dolgran and has been assured that their defibrillator is available for use by the community.

ch) Mynwent y Plwyf: rhaid aros tan gyfarfod Ebrill i gael prisiau am waith yn y bloc toiledau / Parish Cemetery - we will defer to next meeting as quotations from builders are awaited.

d) Bancio / Banking – y broses yn mynd ymlaen / arrangements re: transfer of accounts on-going.

dd) Cyfrifydd / Accountant: Mr. E. Jones, Llanybydder, wedi cytuno i weithio ar ein rhan. Bydd y Clerc yn gofyn am delerau. / Mr. E. Jones, Llanybyther, has agreed to take on our accounts. Clerc will ask for fees.

e) UFA mis Chwefror — bydd y Clerc yn cysylltu â'r adrannau addas gyda'r pwyntiau a godwyd / Clerk will send concerns raised in AOB in February to relevant departments at the County Council.

f) Archwilio Cymru wedi anfon dwy neges: un yn diolch i ni am chwilio'r wybodaeth oedd angen, a'r llall i ddweud fod rhai pethau gyda nhw i'w gwneud cyn cwblhau'r archwiliad ar gyfer y flwyddyn 2022/23; Audit

246)Wales thank us for supplying the required information and advise they have some matters to complete prior to finalizing the audit for 2022/23.

ff) Yswiriant / Insurance: Clerc yn chwilio am 3 pris / Clerk contacting 3 companies for quotes prior to renewal date of insurance.

6) Ariannol / Financial: Roedd H. Lewis wedi paratoi'r fantolen — diolch iddi. Cafwyd yn gywir: cynnig R. Thomas, eilio A. James. Financial Statement prepared by H. Lewis who was thanked. Found to be correct: proposed by R. Thomas, seconded by A. James.

Biliau i'w talu / bills to pay: cyflogau / wages: £1,767.98; clo / padlock for Parish Cemetery shed £19.57; plwmer / plumbing work in Cemetery: £52.80; SLCC – training (from Oct.30th - 2nd cheque issued): £216.00; Dyfed Alarms (Pavillion cctv) £43.20; Un Llais Cymru — hyfforddiant M. Griffiths: £19.00; Inc i'r printer: £14.47 (3 months ink); Clerk - costau ffôn a phost / Clerk - telephone and postage costs: £16.20 (Feb 1st - March 18th). Bills will be paid. Proposed by D. Davies, seconded by G. Jones.

7) Cynllunio / Planning: (ni chymerodd y Cynghorydd Sir L. Evans unrhyw ran /County Councillor L. Evans did not participate):

a) Apêl / Appeal: tir drws nesaf i Llwyngwen, Dolgran / land adjacent to Llwyngwen, Dolgran.

b) Cross Inn Hall, Llanfihangel-ar-arth; c) Derwydd, Llanfihangel-ar-arth. Wedi e-bostio /e-mailed – no objection.

8) Dogfennaeth / Documentation:

a) Cynllun yr Iaith Gymraeg: wedi ei anfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg — disgwyl ymateb. Nodwyd hefyd ein bod wedi ychwanegu'r frawddeg "Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg" ar lythyron a anfonir gan y Cyngor o hyn ymlaen. Byddwn hefyd yn ychwanegu cwestiwn ar ein ffurflen am gais ariannol yn gofyn sut y bwriedir hybu dwyieithrwydd mewn digwyddiadau yn y gymuned.

a) Welsh Language Scheme — this document has been sent to the Welsh Language Commissioner for approval and we await a response. It was also noted that the Council's headed notepaper now includes the statement that we welcome communication in both Welsh and English. A further question asking how bilingualism will be promoted at community events will be added to the Council's form for requesting financial assistance.

b) Polisi Talu Lwfansau — cyflwynwyd y ddogfen hon a nodwyd bydd angen ei hadolygu eto yn y flwyddyn 2024/25 er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion ychwanegol yn sgîl derbyn Adroddiad Blynyddol gan IPRW dros y dyddiau diwethaf. Derbyniwyd. Cynigiwyd gan: D. Davies; eiliwyd gan J. Jones.

Policy for Payment of Councillors' Allowances— this document was presented and it was noted that a further review will be required for the year 2024/25 to reflect any additional requirements as per the latest Annual Report received from IPRW during recent days. Accepted. Proposed by D. Davies, seconded by J. Jones.

c) Derbyniwyd adolygiad / diweddariad y dogfennau canlynol. Cynigiwyd gan V. Davies; eiliwyd gan S. Mason. The following documents were reviewed and accepted. Proposed by V. Davies; seconded by S. Mason.

c) Polisi Hyfforddiant; ch) Cynllun Hyfforddiant; d) Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol.

c) Training Policy;

ch) Training Plan;

d) Model Publication Scheme.

247)

9) Gohebiaeth / Correspondence:

i) M. Griffiths am dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y Cyngor mwn sefyllfa i ddarparu cyfarfodydd “hybrid”. Roedd wedi ymchwilio ’r mater a rhannwyd gwybodaeth ynglyn â’r system “Meeting Owl Pro” sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan rai Cyngorau. Cynigiodd D. Davies ein bod yn chwilio am 3 pris, eiliodd R. Thomas, ac roedd pawb yn gytun.

M. Griffiths drew attention to the requirement of ensuring the Council can readily facilitate hybrid meetings — he had made enquiries and provided information re: the “Meeting Owl Pro” system, which is currently utilized by some Councils. We will search for 3 quotes — D. Davies proposed, and R. Thomas seconded.

Hyfforddiant Côt Ymddygiad - pwysleisio fod rhaid i bob aelod ddilyn yr hyfforddiant hwn o leiaf unwaith yn ystod tymor etholiadol y Cyngor / Stressed the importance of attending the Code of Conduct training at least once in the Council term of five years.

M. Griffiths hefyd yn annog Cynghorwyr i ddilyn cyrsiau eraill Un Llais Cymru / M Griffiths also advised Councillors to attend other One Voice Wales training courses.

247) (9) Gohebiaeth / Correspondence:

Rhain wedi eu e-bostio / following have been e-mailed to members:

ii) Cyngor Tref Llandysul—tynnu ein sylw at gyflwr gwael y ffordd osgou — mae’r Cyngor yma’n cwyno’n ddi-ddiwedd amdani / Llandysul Town Council drawing our attention to the poor state of the surface of the bypass road in our Parish — we continually complain to the County Council.

iii) Hawliau Tramwy Alltwalis / Rights of Way, Alltwalis: rhestr o lwybrau angen sylw. Person o Alltwalis wedi ffonio am wybodaeth, ac fe gafodd y Clerc ganiatád i anfon y manylion perthnasol ato / we have received a list of footpaths in Alltwalis needing attention, and a request from a local person for information. The Clerk was given permission to forward relevant details.

iv) Cronfa Ynni Adnewyddiadwy Busnesau / Business Renewable Energy Fund: neges oddi wrth H. Lewis yn gofyn pam fod y Cyngor Sir yn pasio hwn ymlaen, gan fod y bas data o fusnesau gyda nhw. Fodd bynnag byddwn yn ei osod ar ein gwefan / message from H. Lewis enquiring why this is passed on to Community Councils when the County Council hold a database for businesses. We will place it on our website.

v) IRPW — Adroddiad Blynyddol / Annual Report.

vi) Cynllun Coedtiroedd bach / tiny Forest Funding is open.

vii) Cyngor Sir — Pwyllgor Craffu / County Council Scrutiny Dept.

viii) Dyddiad Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid – Nos Lun, 8ed Ebrill am 7.00yh / Finance Sub-Committee Meeting – Monday, 8th April, at 7.00pm.

10) Unrhyw Fusnes Arall /Any Other Business (information only)

Cynghorydd Sir L. Evans: gwaith ffordd yn Llanfihangel-ar-arth i'w wneud yn fuan / road improvements in Llanfihangel-ar-arth will be carried out soon.

A. James: yn cytuno rhoi ei henw ymlaen i fod ar fwrdd Corff Llywodraethol Ysgol Cae'r Felin / agrees to put her name forward to represent this Council as a governor of Cae'r Felin School.

G. Jones: tyllau di-ri ar heol heibio i Glantweli Fach / potholes on road, Argoed Fach especially.

H. Lewis: wedi anfon neges i ddweud y dylai'r cofnodion / agenda gael eu gwirio gan y Cadeirydd cyn eu hanfon allan /suggests minutes / agendas should be checked by the Chairman before being sent out.

Clerc: amser i feddwl am blannu'r cafnau; trafod y posibilrwydd o ofyn i'r cyfreithiwr weithio ar ein rhan i gofrestru'r Cornel Bicnic. We should be thinking of contacting Farmyard re: planters; asks the possibility of contacting the solicitor to register the Picnic Area on our behalf.

Gorffenwyd / Ended 8.55pm.

DRAFT